WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Datganiad Tryloywder – **Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen 1015A2018-19

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod Adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle bo'n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ynglŷn â Swyddfa Archwilio Cymru / yr Archwilydd Cyffredinol	5
Fframwaith Rheoli Ansawdd	6
Monitro ac Adrodd ar Ansawdd Archwiliadau	11

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad yn ffurfio rhan o gyfres o ddogfennau sydd, yn eu cyfanrwydd, yn darparu gwybodaeth debyg i'r hyn y mae'n ofynnol i gwmnïau archwilio yn y sector breifat ei gyhoeddi yn eu 'hadroddiadau ar dryloywder'. Nid ydym yn destun i'r gofynion adrodd hyn ar dryloywder ond rydym wedi ein hymrwymo i egwyddorion tryloywder ym mhopeth a wnawn.

Mae rhan gyntaf y Datganiad hwn – Ynglŷn â Swyddfa Archwilio Cymru / yr Archwilydd Cyffredinol – yn darparu cyfeiriadau at ble rydym eisoes yn cyhoeddi gwybodaeth am ein trefniadau ariannol a llywodraethol (gwybodaeth y mae'n ofynnol i gwmnïau yn y sector preifat ei chyhoeddi yn eu ‘hadroddiadau ar dryloywder’ gan nad yw ar gael yn unrhyw le arall).

Rydym wedi ein hymrwymo i fodloni safonau uchel o ansawdd archwilio ym mhob rhan o’n gwaith er mwyn darparu aelodau'r cyhoedd â sicrwydd y gellir dibynnu ar ein gwaith a bod y negeseuon rydym yn eu darparu yn gadarn ac wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae’r rhannau sy’n weddill yn y Datganiad wedi'u llunio i esbonio ar lefel uchel y trefniadau sydd gennym ar waith i fodloni'r amcanion hyn.

Ynglŷn â Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol

Mae gwybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ar gael mewn amrywiaeth o ddogfennau cyhoeddus ar **ein gwefan**. Mae'r rhain yn cynnwys ein:

- Amcangyfrifon o incwm a gwariant
- Cynlluniau blynyddol
- Adroddiadau interim
- Adroddiadau a chyfrifon blynyddol
- Y cod ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru
- Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Mae gwybodaeth am ein trefniadau ariannol a llywodraethol ar gael yn y dogfennau hyn fel nodwyd yn y tabl canlynol.

Strwythur cyfreithiol	Trefniadau llywodraethu	Gwybodaeth ariannol	Taliadau cydnabyddiaeth bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac uwch-reolwyr
Mae'r cod ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn crynhoi rolau statudol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a'r berthynas sydd rhyngddynt.	Mae crynodeb o strwythur llywodraethol Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i osod yn y Datganiad Llywodraethol sydd wedi'i gyhoeddi yn ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol.	Mae gwybodaeth am incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i nodi yn ein hamcangyfrifon a'n Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol.	Mae gwybodaeth ynghylch y taliadau cydnabyddiaeth, a seiliau taliadau cydnabyddiaeth aelodau bwrdd ac uwch-reolwyr Swyddfa Archwilio Cymru, wedi'i nodi yn ein Hadroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth blynyddol, sydd wedi'i gyhoeddi yn ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

Fframwaith rheoli ansawdd

Mae ein system rheoli ansawdd wedi'i dylunio i gydymffurfio â safonau rheoli ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol.

Mae ein pwyllgor rheoli o'r farn fod y fframwaith ansawdd hwn yn gweithio'n effeithiol a bod y trefniadau yn parhau i ddatblygu fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Arwain trwy esiampl

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol yn atebol i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ansawdd ein holl waith archwilio, gan gynnwys yr hyn a wnaed gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chontractwyr allanol. Mae'n sicrhau bod ansawdd archwilio yn flaenllaw i'r hyn rydym yn ei wneud drwy wneud y canlynol:

- gosod safonau personol ar gyfer ansawdd archwilio ac arwain drwy esiampl;
- ymgorffori ansawdd archwilio i'n strategaethau, diwylliant, gwerthoedd, cod ymarfer a dulliau archwilio;
- hyrwyddo pwysigrwydd ansawdd archwilio drwy ein system arfarnu perfformiad;
- darparu negeseuon clir, agored a rheolaidd i staff ynghylch pwysigrwydd ansawdd archwilio; a
- sefydlu llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer ansawdd archwilio.

Mae ein diwylliant wedi'i ymrwymo i wella'n barhaus ac i gefnogi ein staff i gyflawni'r gwelliant hwnnw, drwy ddysgu a datblygu a'n trefniadau rheoli perfformiad.

Dulliau ac offer archwilio

Elfen bwysig o gyflawni ansawdd archwilio yw sefydlu dulliau safonol i gynnal ein gwaith. Rydym wedi datblygu dulliau cyson ar gyfer ein holl waith, fel a ganlyn:

- mae ein Llawlyfr Cyflenwi Archwilio Perfformiad yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal ein holl waith archwilio perfformiad
- mae'r Llawlyfr Cyflenwi Archwilio Ariannol yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal ein holl waith i roi barn ar gyfrifon
- mae cyfres o gyfarwyddiadau ardystio'n darparu cyfarwyddyd ar wneud gwaith ardystio grantiau

Mae ein holl ddulliau archwilio'n pwysleisio pwysigrwydd ansawdd archwilio a rôl pob aelod o'r staff o ran cyflawni lefelau disgwyliedig o ansawdd archwilio.

Cynlluniwyd y dulliau hyn i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer cymhwyso barnau a gweithdrefnau cyson yn ein holl waith archwilio, a chânt eu hategu gan systemau rheoli dogfennau a chofnodion, sydd eto'n hybu cysondeb ac ansawdd archwilio.

Rydym yn parhau i ddatblygu a defnyddio amrediad o offer cyfrifiadurol eraill wrth wneud ein gwaith, er mwyn caniatáu i ni gwestiynu symiau mawr o ddata cymhleth yn effeithiol ac i gyflwyno ein canfyddiadau ar fformatau sy'n fwy hygyrch i'r llygaid.

Er bod safoni dulliau archwilio'n ceisio gwella ansawdd archwilio, ni all ddisodli'r angen am archwilwyr sy'n amau a barnu'n effeithiol. Trwy ein rhaglenni dysgu a datblygu, rydym yn parhau i hyrwyddo'r sgiliau hyn, gan hefyd ddiweddaru ein dulliau archwilio, er mwyn ymwreiddio arferion gorau ac ystyried datblygiadau proffesiynol newydd.

Yn yr un modd, mae cwmnïau preifat hefyd yn defnyddio dulliau ac offer safonol.

Caiff pob un o'n harchwilwyr, gan gynnwys cwmnïau preifat, eu cefnogi gan swyddogaethau technegol penodol sy'n darparu canllawiau a chyngor arbenigol ar faterion technegol a phroffesiynol amrywiol.

Annibyniaeth yr archwilydd

Un nodwedd allweddol ynghylch archwilwyr yw'r gofyniad i ni fod yn annibynnol o'r rhai hynny yr ydym yn eu harchwilio. Mae hyn yn cynnwys annibyniaeth y penodiadau yn ogystal â chyflawni'r gwaith archwilio ei hun. Mae'r annibyniaeth hon yn cefnogi ein harfer o amau'n broffesiynol ac yn galluogi i ni ddod i gasgliadau mewn modd gwrthrychol, heb gael ein heffeithio gan ddylanwadau a allai beryglu ein barn broffesiynol.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r swyddfa'n annibynnol o'r llywodraeth, a gwneir penodiadau gan y Frenhines ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru enwebu rhywun. Caiff Archwilwyr Cyffredinol eu penodi am gyfnod penodol o wyth mlynedd, a dim ond y Frenhines all ddod â'r penodiad hwnnw i ben mewn rhai amgylchiadau prin. Telir am gyfraniadau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, er mwyn ceisio cadw annibyniaeth y swydd.

Rydym wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio a Chod Ymddygiad, sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd annibyniaeth a gwrthrychedd yn ein gwaith.

Mae angen i bob aelod o'n staff wneud datganiad annibyniaeth blynyddol, lle maent yn nodi unrhyw gysylltiadau sydd ganddynt â'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio a allai amharu ar eu hannibyniaeth. Pan fydd unrhyw gysylltiadau o'r fath yn cael eu nodi, caiff camau priodol eu cymryd i leihau'r gwrthdaro buddiannau posibl i lefel dderbyniol. Gall camau o'r fath gynnwys atal staff rhag gweithio ar archwiliadau penodol neu gyfyngu cwmpas yr ymrwymiad y gallai fod gan unigolyn ag archwiliad penodol.

Mae cod ymddygiad ar wahân ar waith i aelodau'r bwrdd, sy'n gorfod datgan unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn unrhyw fater, a gallent orfod gadael cyfarfodydd pan fydd y mater hwnnw'n cael ei ystyried.

Yn ogystal â'r gwaith statudol sydd angen i'r Archwilydd Cyffredinol ei wneud, gallai ymgymryd â rhywfaint o waith anstatudol o bryd i'w gilydd. Rydym wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod gwaith o'r fath dim ond yn cael ei wneud pan fydd gennym y capasiti a'r gallu i wneud y gwaith hwnnw, a lle na fyddai derbyn gwaith o'r fath yn amharu ar annibyniaeth statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'n rhaid i gwmnïau preifat sy'n cyflawni gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gael trefniadau tebyg ar waith i fonitro a rheoli unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth yr archwiliadau y maent yn eu cynnal. Mae gennym weithdrefnau ar waith i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi Polisi Cylchdroi hefyd, sy'n rheoli pa mor hir y gall uwch-aelodau o'r staff fod yn gysylltiedig â chyfeiriad unrhyw archwiliad penodol. Mae'r polisi'n ceisio cael cydbwysedd rhwng y rhan fawr honno o waith yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'n seiliedig ar ddisgresiwn, maint cymharol fach Swyddfa Archwilio Cymru a gofynion safonau moesegol.

Caiff hyfforddiant ei ddarparu ar gyfer staff yn rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n polisïau a gweithdrefnau o ran annibyniaeth.

Addysg broffesiynol barhaus archwilwyr

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn dysgu a datblygiad staff er mwyn gwella sgiliau a gwybodaeth broffesiynol ein staff. Mae pob aelod o'r staff yn cael deng niwrnod y flwyddyn fel arfer i gefnogi eu dysgu a datblygiad proffesiynol.

Mae dwy brif elfen i'n rhaglenni dysgu a datblygu blynyddol:

- rhaglenni gorfodol: mae'r rhain wedi eu cynllunio i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn meysydd sgiliau technegol a chraidd newydd ac allweddol sy'n berthnasol i'w rolau penodol; a
- dysgu 'yn ôl y galw': caiff hwn ei ganfod yn sgil adolygiadau datblygu perfformiad unigolion gyda'u rheolwyr llinell, ac mae wedi ei gynllunio i gefnogi datblygiad personol unigolion.

Mae ein prosesau datblygu personol wedi eu hachredu gan y Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW), Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA) a'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT) fel systemau datblygiad proffesiynol parhaus priodol ar gyfer ein staff.

Caiff effeithiolrwydd ein buddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol ei adolygu a'i asesu'n barhaus. Yn benodol, caiff asesiadau cyfnodol eu cynnal rhwng unigolion a'u rheolwyr llinell ar effeithiolrwydd y dysgu a sut y mae wedi ei roi ar waith.

Rydym hefyd yn gweithredu dull dysgu ôl-brosiect ar bob un o'n prosiectau mawr (gan gynnwys archwiliadau), sy'n ceisio atgyfnerthu ein nod o fod yn sefydliad dysgu a rhannu sy'n ymdrechu i wella'n barhaus. Mae'r broses ddysgu ôl-brosiect hon yn canolbwyntio ar

ystyried beth allwn ni ei ddysgu o'r ffordd y cafodd y prosiect ei gyflawni, ac mae'n hybu ystyriaeth o'r canlynol:

- yr hyn a weithiodd yn dda
- yr hyn y gellid bod wedi ei wella
- sut deimlad ydoedd
- tystiolaeth o'r effaith
- gwersi ar gyfer y dyfodol

Mae cwmnïau preifat yn mynychu ein rhaglenni hyfforddi gorfodol hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb ymhlith pawb sy'n cyflawni gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Monitro

Rydym wedi sefydlu trefniadau monitro ansawdd ar draws ein harchwiliadau ariannol a'n harchwiliadau perfformiad, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r safonau ansawdd archwilio yr ydym yn eu disgwyl ym mhob rhan o'n gwaith. Amlinellir y rhain isod.

Archwiliadau ariannol

Mae polisi adolygu cylchdroadol wedi ei fabwysiadu mewn archwiliadau ariannol – barnau ar gyfrifon ac ardystio grantiau – a chaiff archwiliadau mewnol eu dewis i'w hadolygu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- caiff pob arweinydd ymgysylltu ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd fel arfer (er bod hyn yn tueddu i fod yn flynyddol yn ymarferol); a
- chaiff pob rheolwr archwilio ei adolygu o leiaf bob tair blynedd fel arfer

Rydym hefyd yn ceisio cael cwmpas cynrychiadol o'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio, gan ystyried sectorau archwilio, maint y corff a'r cymhlethdod.

Mae nifer o'r adolygiadau hyn yn cael eu cynnal gan swyddogion cyfatebol mewn asiantaethau archwilio eraill yn y DU, megis Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ac Audit Scotland.

Mae'r practis hefyd wedi gwella ei drefniadau drwy ddefnyddio Adran Sicrhau Ansawdd yr ICAEW i adolygu trefniadau ansawdd yn annibynnol ar draws y practis. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gosod unrhyw gyfyngiad ar ddewis archwiliadau'r Adran Sicrhau Ansawdd i'w hadolygu, sut y cynhelir yr adolygiadau hynny nac ar sut mae'r Adran Sicrhau Ansawdd yn adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau i Swyddf Archwilio Cymru.Rydym yn cyhoeddi crynodeb flynyddol o ganfyddiadau annibynnol yr Adran Sicrhau Ansawdd ar dudalen sefydliad agored a thryloyw ein gwefan. Gwnaethom gychwyn ar gontract newydd yn 2016, a fydd yn rhedeg tan fis Tachwedd 2020. Mae'r contract hwn yn darparu ar gyfer gwasanaethau adolygu ansawdd yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer adolygwyr ansawdd mewnol a chanllawiau arbenigol ar ddatblygu ein dull archwilio.

Archwiliadau perfformiad

Rydym yn defnyddio amrediad o wahanol ddulliau gweithredu o fewn archwiliadau perfformiad i asesu a yw ein gwaith wedi cydymffurfio â'r safonau yr ydym wedi eu gosod yn ein fframwaith ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- hen ôl-adolygiadau o sampl o gynhyrchion archwilio perfformiad sy'n cael eu dewis i'w hadolygu yn unol â'r egwyddorion canlynol:
  - caiff pob arweinydd ymgysylltu ei adolygu o leiaf bob blwyddyn fel arfer; a
  - chaiff pob rheolwr archwilio ei adolygu o leiaf bob tair blynedd fel arfer.
- adolygiadau cymheiriaid o sampl o adroddiadau cenedlaethol;
- adborth ar adroddiadau cenedlaethol a rhaglenni gwaith archwilio perfformiad blynyddol mewn arolygon rhanddeiliaid;
- asesiad o ansawdd ein hallbynnau ysgrifenedig o weithgarwch golygu a sgrinio dadansoddiadau archwilio perfformiad;
- dadansoddiad o'r cyflenwi ar amser ac o fewn y gyllideb; a
- gweithgareddau dysgu a datblygu perfformiad mewn grŵp.

Er mwyn cyflawni'r adolygiadau cymheiriaid a nodir uchod, rydym wedi sefydlu trefniadau dwyochrog gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon i adolygu sampl o'n hadroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn.

Cwmnïau yn y sector preifat

Rydym hefyd yn ymrwymo i gontractau gyda chwmnïau archwilio yn y sector preifat i gyflawni ychydig o waith archwilio ariannol a pherfformiad ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. O dan eu contract, mae'n ofynnol i'r cwmnïau hyn sefydlu eu fframweithiau rheoli ansawdd eu hunain er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn cael ei gyflawni i safonau ansawdd priodol. Rydym yn cynnal ein hadolygiadau sicrhau perfformiad ein hunain ar y gwaith archwilio a wneir gan y cwmnïau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae gennym gamau unioni priodol ar waith pe na fyddai'r safonau hynny'n cael eu bodloni.

Trefniadau cwmni cyfan

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol hefyd yn gyfrifol am fonitro a oes trefniadau cymorth priodol (gan gynnwys trefniadau o ran annibyniaeth) ar waith ar draws holl Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn bodloni'r safonau ansawdd archwilio yr ydym yn disgwyl eu cyflawni. I'r diben hwn, mae'n cydweithio â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n gyfrifol am gynghori'r Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd ar y fframwaith rheoli ansawdd sydd wedi ei sefydlu o fewn Swyddfa Archwilio Cymru, a'r Cyfarwyddwr Cyllid, sy'n gyfrifol am adnoddau dynol (gan gynnwys ein prosesau recriwtio ac arfarnu).

Adrodd

Caiff canlyniadau'r gwaith adolygu hwn eu hadrodd i gyfarwyddwyr y pwyllgorau ar gyfer pob practis, a chaiff y rhain eu rhannu â phob aelod o'r staff er mwyn cefnogi ein dyhead i wella'n barhaus.

Monitro ac adrodd ar ansawdd archwiliadau

Dyma un o'r dangosyddion perfformiad allweddol yr ydym yn ei fesur yn unol â'n Cynllun Blynyddol:

- cyfran yr archwiliadau a gyflawnir yn unol â'r safonau ansawdd gofynnol.

Mae'r dangosydd hwn yn cynnwys gwaith a gyflawnir gan y ddau bractis mewnol (archwiliadau perfformiad ac archwiliadau ariannol) a gwaith a gyflawnir gan gwmnïau yn y sector preifat.

Gwnaethom osod targed ar gyfer y dangosydd hwn i sicrhau bod 100% o'r archwiliadau a asesir fel rhan o'r gwaith monitro ansawdd a ddisgrifir uchod yn cydymffurfio.

Rydym yn adrodd ar ein perfformiad yn erbyn y targed hwn yn gyhoeddus yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru